### Gweddi am Adnewyddiad yn y Grawys

O Arglwydd ein Duw, gweddïwn yn daerach nag erioed am adfywiad i'n ffydd a'n bywydau, ac yn arbennig i'r enwadau sy'n arddel Crist, a'r holl eglwysi sydd yn perthyn iddynt. Tydi yn unig all roddi'r adfywiad hwnnw trwy rym yr Ysbryd Glân.

'O anfon di yr Ysbryd Glân
yn enw Iesu mawr,
a'i weithrediadau megis tân –
O deued ef i lawr.'

Yr wyt, O Dduw, wedi addo rhoi i ni dy Ysbryd i'n bywhau a'n glanhau, ein puro a'n cysuro a'n cofleidio, fel y medrwn fod yn gyfryngau bendith i eraill.

'Yn ôl d'addewid fawr ei gwerth,
O Arglwydd, tywallt di
dy Ysbryd Sanctaidd gyda nerth
i weithio arnom ni.'

Ie, i weithio arnom ni sy'n chwilio yn gyson am esgusodion rhag rhoddi mwy o amser i fuddiannau'r Deyrnas, ac yn gyndyn iawn i ildio ein holl fywydau i'r Hwn a roddodd ei einioes drosom ac a'n gwnaeth yn genhadon a llysgenhadon, arweinwyr ac addolwyr yn y gymuned weddigar sydd yn gartref ysbrydol i ni bob wythnos, os dymunwn hynny.

'O'th wir ewyllys deued ef i argyhoeddi'r byd o bechod, o gyfiawnder, o farn, o gyfle, o gyfrifoldeb ac i fod yn gydwybodol bob amser dros y da a'r cyfiawn yn ein hymbiliadau gerbron Gorsedd Gras.

Ac arwain etifeddion nef drwy'r anial maith i gyd. Addewaist i ni adnewyddiad calon, meddwl a deall, a dedwyddwch er mwyn i ni gefnogi pob ymdrech i fywhau cymunedau'r ffydd.'

'Yn ôl d'addewid, Iesu mawr,
yr awron anfon di
y gwir Ddiddanydd yma i lawr
i aros gyda ni.'

Dyna'n dymuniad, O Arglwydd, cael cwmni a chyfarwyddyd y Diddanydd Arall wrth dystio i'r gwirionedd am Grist Iesu ein Harglwydd. Amen.